Croeso Cymru
Visit Wales

Meini prawf ar gyfer hunanasesiad busnesau i gyflawni STATWS RHESTREDIG

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

COD YMDDYGIAD ar gyfer POB MATH O LETY (Llety â gwasanaeth, hunanddarpar a charafanio a gwersyllag)

Mae'n ofynnol i berchnogion/rheolwyr y busnes ymgymryd â'r gofynion canlynol a glynu wrthynt:

- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus (sicrwydd lleiafswm a argymhellir £2m) a chydymffurfio â phob rhwymedigaeth o ran cynllunio, diogelwch a rhwymedigaethau statudol eraill sydd mewn grym (cewch ragor o wybodaeth gan eich Awdurdod Lleol).
- Cynnal safonau o ran gofal gwesteion, diogelwch eiddo a phersonol, glendid, a safon gwasanaeth sy'n briodol i'r math o fusnes dan sylw.
- Sicrhau fod pob cyfleuster yn cael ei lanhau'n drylwyr cyn gosod i'r ymwelwyr nesaf.
- Rhoi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir, mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfrwng printiedig neu electronig arall.
- Ei gwneud yn eglur i'r ymwelwyr beth yn union sy'n gynwysedig ym mhob pris, gan gynnwys trethi ac unrhyw ordaliadau eraill. Dylid hefyd egluro manylion tâl a godir am unrhyw wasanaethau/cyfleusterau eraill. Cyflwyno manylion ysgrifenedig am daliadau dyledus a derbynneb i unrhyw ymwelydd sy'n gofyn am hynny.
- Rhoi datganiad clir i westeion ar adeg bwcio ynghylch y polisi canslo, ee dros y ffôn neu ar bapur os yw'r gwestai yn gofyn am hynny.
- Dweud wrth ymwelwyr ar adeg bwcio, ac ar ôl hynny, am unrhyw newid, os yw'r llety/llain a gynigir mewn anecs ar wahân neu drefniant tebyg, gan nodi ble mae'r llety/llain ac unrhyw wahaniaeth o ran cysur a/neu fwynderau i'r hyn a geir yn y llety/llain ar safle'r busnes.
- Ymdrin yn brydlon a chwrtais ag unrhyw ymholiadau, ceisiadau, archebion a gohebiaeth gan ymwelwyr.
- Sicrhau bod trefniadau wedi'u sefydlu ar gyfer ymdrin â chwynion, gan ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn brydlon a chwrtais ac egluro'r canlyniadau i'r ymwelydd.
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i anghenion ymwelwyr ag anableddau ac ymwelwyr ag anghenion arbennig, gan wneud darpariaethau addas lle bo hynny'n gymwys.
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i weithredu'r busnes mewn modd cynaliadwy drwy ddefnyddio cynnyrch ac ymarfer ecogyfeillgar.
- Caniatáu mynediad rhesymol i'r sefydliad i gynrychiolydd o neu ar ran Croeso Cymru, ar gais, i gadarnhau bod y Cod Ymddygiad yn cael ei ddilyn yn llawn a bod y sefydliad yn cynnal meini prawf perthnasol y cynllun.
- Cadarnhau y darperir yr holl ofynion o ran cyfleusterau, yn unol â'r rhestr ynghlwm.

LLETY Â GWASANAETH – Gofynion penodol o ran cyfleusterau

I gynnwys gwestyau, lletyau gwely a brecwast a thai llety, hostelau â gwasanaeth a llety ar gampws.

Er mwyn bodloni disgwyliadau defnyddwyr o ran llety i dwristiaid, sy'n addas i'r diben y bwriadwyd ef, mae Croeso Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio ar bob adeg â'r gofynion a restrir isod, gan gynnwys y gofynion yn y Cod Ymddygiad.

Ni all unrhyw fusnes sy'n cynnig llety i drigolion Adran Gwaith a Phensiynau neu'n gweithredu fel hostel lloches fod yn rhan o'r cynllun.

Cyffredinol

Dylai pob rhan o weithrediad y busnes gyrraedd safon dderbyniol o ran cadw tŷ a chynnal a chadw.

Cynnal/glendid

- Mae glendid o'r pwys mwyaf i westeion ym mhob math o sefydliad, felly rhaid cyrraedd a chadw at safon uchel o ran glendid ym mhob rhan o'r eiddo

Cynnal a chadw

- Dylai'r llety fod wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, rhaid i bob agwedd ar yr eiddo fod yn addas i'r diben, rhaid i'r eiddo fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, heb unrhyw arwyddion lleithder/adfeiliad.
- Dylid sefydlu trefniadau monitro ar gyfer adrodd am eitemau wedi torri/difrodi yn y llety.

Rheolwyr

- Rheolwyr/perchnogion i fod ar gael wrth i westeion gyrraedd a gadael, ac yn ystod adegau prydau bwyd.

Bwyd/Diod

- Brecwast, gan gynnwys diodydd poeth i fod ar gael.

Mannau Cyhoeddus

- Ystafell fwyta neu ardal frecwast i fod ar gael oni bai y gweinir prydau yn yr ystafell wely, ac os felly, dylid dweud hyn wrth westeion wrth iddynt archebu.

Ystafelloedd gwely

- Gwely cadarn a glân a chlustog lân.
- Dillad gwely, dillad gwely sbâr ar gael ar gais, (oni bai mai'r cwsmer sy'n dod â'u dillad gwely ei hun).
- Darparu dillad gwely glân ar gyfer pob ymwelydd newydd.
- Gwres digonol ar gael/golau digonol ar gael.
- O leiaf un pwynt trydan.
- O leiaf un ffenestr sy'n agor neu system awyru briodol ar gyfer ffenestri na ellir eu hagor.
- Darparu llenni, bleindiau neu ddrysau ffenestr ar bob ffenestr.
- Darparu wardrob/lle i hongian dillad.

Ystafelloedd ymolchi

- Lle rhennir cyfleusterau, rhaid cael o leiaf 1 toiled gyda daliwr papur a phapur toiled, bath neu ystafell gawod gyda basn ymolchi. Os yw pob ystafell wely a osodir ag ystafell ymolchi en-suite neu â'i hystafell ymolchi breifat a'r gwestai yn cael ei allwedd ei hun, nid yw'n ofynnol darparu cyfleusterau ystafell ymolchi/toiled a rennir.
- Os oes cawod, rhaid darparu sgrin neu len.
- Dŵr poeth ar gael ar bob adeg resymol.
- Bachyn i hongian dillad, a drych.
- Bleindiau, drysau ffenestr neu lenni ar ffenestri.
- Rhaid i bob en-suite/ystafell ymolchi fewnol sydd heb ffenestr yn agor fod â system awyru 'cymeradwy gan Awdurdod Lleol'
- Golau digonol gyda gosodiadau golau cymeradwy i'w gosod mewn ystafelloedd ymolchi.
- Clo neu follt mewnol.

LLETY HUNANDDARPAR – Gofynion penodol o ran cyfleusterau

Yn ogystal â bythynnod traddodiadol a rhandai, hefyd i gynnwys llety hunanddarpar mewn hostel, tŷ bynciau ac ar gampws.

Er mwyn bodloni disgwyliadau defnyddwyr o ran llety i dwristiaid, sy'n addas i'r diben y bwriadwyd ef, mae Croeso Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio ar bob adeg â'r gofynion a restrir isod, gan gynnwys y gofynion yn y Cod Ymddygiad.

Ni all unrhyw fusnes sy'n cynnig llety i drigolion Adran Gwaith a Phensiynau neu'n gweithredu fel hostel lloches fod yn rhan o'r cynllun.

Cyffredinol

Dylai pob rhan o weithrediad y busnes gyrraedd safon dderbyniol o ran cadw tŷ a chynnal a chadw.

Cynnal/glendid

- Mae glendid o'r pwys mwyaf i westeion ym mhob math o sefydliad, felly rhaid cyrraedd a chadw at safon uchel o ran glendid ym mhob rhan o'r eiddo.

Cynnal a chadw

- Dylai'r llety fod wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, rhaid i bob agwedd ar yr eiddo fod yn addas i'r diben, rhaid i'r eiddo fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, heb unrhyw arwyddion lleithder/adfeiliad.
- Dylid sefydlu trefniadau monitro ar gyfer adrodd am eitemau wedi torri/difrodi yn y llety.

Rheolwyr

- Rheolwyr/perchnogion i fod ar gael wrth i westeion gyrraedd, neu rhaid rhoi manylion ymlaen llaw ynglŷn â mynediad i'r eiddo.
- Lle darperir gwelyau mewn ystafelloedd byw, rhaid disgrifio hyn yn fanwl.

Mannau Cyhoeddus

- Cyfleusterau digonol o ran byrddau a chadeiriau ar gyfer prydau bwyd.
- Darparu digon o gadeiriau a/neu soffa, gyda diogon o leoedd eistedd ar gyfer y nifer uchaf yr hysbysebir ar eu cyfer.
- Gwres digonol/golau digonol.

Ystafelloedd gwely

- Gwely cadarn a glân a chlustog lân.
- Os darperir dillad gwely, dylid ei newid ar gyfer pob gwestai newydd a chynnig newid dillad gwely yn wythnosol yn ystod y cyfnod gosod. Dillad gwely sbâr i fod ar gael, ar gais.
- Gwres digonol ar gael/golau digonol ar gael.
- O leiaf un pwynt trydan.
- O leiaf un ffenestr sy'n agor neu system awyru briodol ar gyfer ffenestri na ellir eu hagor.
- Darparu llenni, bleindiau neu ddrysau ffenestr ar bob ffenestr.
- Darparu wardrob/lle i hongian dillad.

Ystafelloedd ymolchi

- Ystafell ymolchi gyda thoiled, daliwr papur tŷ bach, bath neu gawod, basn ymolchi a chyflenwad dŵr poeth ac oer.
- Os darperir cawod, rhaid cael sgrin neu len.
- Bachau i hongian dillad, a drych.
- Bleindiau, drysau ffenestr neu lenni ar ffenestri.
- Rhaid i bob en-suite/ystafell ymolchi fewnol sydd heb ffenestr yn agor fod â system awyru 'cymeradwy gan Awdurdod Lleol'.
- Golau digonol gyda gosodiadau golau cymeradwy i'w gosod mewn ystafelloedd ymolchi.
- Clo neu follt mewnol.

Cegin

- Modd i goginio, oergell, lle storio bwyd, lle i baratoi bwyd, a chyfleuster golchi llestri.
- Cyfleuster gwaredu sbwriel.
- Llestri ac offer cegin digonol ar gyfer nifer y gwesteion.
- Golau ac awyru digonol.

PARCIAU CARAFÁN, TEITHIO A GWERSYLLA – Gofynion penodol o ran cyfleusterau

Er mwyn bodloni disgwyliadau defnyddwyr o ran llety i dwristiaid, sy'n addas i'r diben y bwriadwyd ef, mae Croeso Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio ar bob adeg â'r gofynion a restrir isod, gan gynnwys y gofynion yn y Cod Ymddygiad.

Ni all unrhyw barc neu faes sy'n cynnig llety mewn carafán i drigolion Adran Gwaith a Phensiynau neu'n gweithredu fel hostel lloches fod yn rhan o'r cynllun.

Cyffredinol

Rhaid bod â thrwydded safle/caniatâd cynllunio priodol ar gyfer y math o safle a weithredir, neu brawf swyddogol gan yr awdurdod/corff perthnasol bod y safle wedi'i eithrio rhag bod angen trwydded safle.

Rhaid i bob cartref gwyliau carafán a logir yn y parc gydymffurfio â Safon Ewropeaidd EN 1647 neu Safon Brydeinig BS 3632, rhaid iddo fod o wneuthuriad priodol, a darparu'r holl ofynion ar gyfer llogi Cartrefi Gwyliau Carafán fel y manylir isod.

Rhaid i'r parc/maes cyfan, gan gynnwys y cyfleusterau canolog megis cyfleusterau hamdden, bariau, ardaloedd chwarae ayyb fod wedi'u cynnal yn dda a'u cadw mewn cyflwr diogel a destlus.

Cyfleusterau Toiled/Cawod

Os yw'r cyfleusterau hyn ar gael, dylent fod yn lân, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, eu goleuo'n ddigonol, gyda chyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer:

- Bachau dillad.
- Papur tŷ bach a daliwr papur.
- Cyfleuster gwaredu iechydol ym mhob bloc amwynder (merched).
- Basnau golchi dwylo gyda phlygiau.
- Cyfleusterau sychu dwylo.
- Drws a/neu len ar bob ciwbicl cawod unigol.

Cyfleusterau Safle

- Rhaid gosod arwyddion yn nodi pwrpas pob cyfleuster ar y safle.
- Rhaid darparu'n ddigonol ar gyfer gwaredu sbwriel, gan ddarparu cyfleuster gwaredu gwastraff cemegol oni bai bod hynny wedi'i wahardd yn benodol yn nhelerau trwyddedu'r safle neu drwy gytundeb eithrio swyddogol.
- Lle darperir cyfleuster golchi llestri, dylid darparu cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer, a'i lanhau a'i gynnal a'i gadw'n dda.

Gofynion ar gyfer Gosod Cartref gwyliau Carafán

Rhaid i bob carafán a osodir:

- Fod ar sylfaen gwastad a chadarn, gyda grisiau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer pob drws.
- Rhaid i du mewn pob carafán a osodir gyrraedd safon dderbyniol o ran cynnal a chadw.
- Rhaid darparu gwres a golau digonol.
- Rhaid darparu ystafell ymolchi fewnol gyda thoiled, basn ymolchi a chawod neu fath.
- Rhaid darparu cyflenwad dŵr poeth ac oer.
- Modd i goginio bwyd a gwneud diodydd poeth a darparu digon o offer coginio a llestri ar gyfer y nifer o westeion.
- Oergell, cyfleuster golchi llestri a gwaredu sbwriel a man storio bwyd.
- Ffenestri y gellir eu hagor, llenni neu fleindiau.
- Darparu gwely cadarn, glân a chlustog ar gyfer pob gwestai.
- Wedi cysylltu â system briodol i ddraenio dŵr budr.

ATYNIADAU I YMWELWYR – Gofynion penodol

Yn y lle cyntaf, rhaid bodloni diffiniad Croeso Cymru o'r hyn a olygir wrth atyniad, sef:

"Cyrchfan gwibdaith barhaol, gyda phrif bwrpas o ganiatáu mynediad at ddibenion adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn safle manwerthu neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatr neu ffilm yn bennaf. Rhaid iddo fod yn agored i'r cyhoedd heb archebu o flaen llaw, a hynny am gyfnodau cyhoeddedig o'r flwyddyn, a dylai allu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid."

Yn ogystal â chydymffurfio â'r diffiniad uchod, rhaid bodloni'r holl ofynion isod:

- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus (sicrwydd lleiafswm a argymhellir £2m) a chydymffurfio â phob rhwymedigaeth o ran cynllunio, diogelwch a rhwymedigaethau statudol eraill sydd mewn grym (cewch ragor o wybodaeth gan eich Awdurdod Lleol);
- Rhoi disgrifiad cywir i bob ymwelydd a darpar ymwelydd o'r amwynderau, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfrwng printiedig neu electronig arall, a nodi ar y fath ddeunydd hyrwyddo unrhyw gyfyngiadau mynediad arwyddocaol;
- Arddangos yn glir mewn mannau mynediad cyhoeddus unrhyw ffioedd mynediad/cyfranogi gan gynnwys unrhyw ffioedd gwasanaeth a threthi (os yn berthnasol) ac a oes unrhyw dâl ychwanegol neu atyniadau unigol;
- Dylai pob agwedd ar yr atyniad sydd ar gael i ymwelwyr fod yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, mewn cyflwr da ac yn gweithio fel y dylai;
- Ymdrin yn brydlon a chwrtais ag unrhyw ymholiadau, ceisiadau, archebion a gohebiaeth gan ymwelwyr;
- Sicrhau bod trefniadau wedi'u sefydlu ar gyfer ymdrin â chwynion, gan ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn brydlon a chwrtais ac egluro'r canlyniadau i'r ymwelydd;
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i anghenion ymwelwyr ag anableddau ac ymwelwyr ag anghenion arbennig, gan wneud darpariaethau addas lle bo hynny'n gymwys;
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i weithredu'r busnes mewn modd cynaliadwy drwy ddefnyddio cynnyrch ac ymarfer ecogyfeillgar;
- Caniatáu mynediad rhesymol i'r atyniad i gynrychiolydd o neu ar ran Croeso Cymru, ar gais, i gadarnhau bod y gofynion a restrir uchod yn cael eu dilyn yn llawn.

Cyhoeddwyd gan Croeso Cymru
Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY
Ffôn: +44 (0)1443 845500
www.cymru.gov.uk/twristiaeth

Cyflwynir yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn ddiffuant a gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau ei bod yn gywir. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall neu gamddehongliad. Mae pob atebolrwydd am golled, siom, esgeuluster neu unrhyw niwed arall a achoswyd drwy ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn wedi ei eithrio drwy hyn.

© Croeso Cymru 2011.

WAG10-11388 / G/MH/3967 / Mawrth / Cysodwyd mewn teip 12pt / © Hawlfraint y Goron 2011